# Adborth asesiad personol – Rhifedd (Gweithdrefnol)

## Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Deall adborth

Mae'ch plentyn wedi gwneud asesiad personol ar-lein byr ar gyfer Rhifedd (Gweithdrefnol). Mae'r wybodaeth hon i'ch helpu i ddeall yr adborth a roddwyd iddyn nhw.

Pwrpas asesiadau personol yw helpu plant i wneud cynnydd, a hynny trwy ddeall yr hyn y gallan nhw ei wneud, yr hyn na allan nhw ei wneud, a'u camau nesaf.

## Beth yw Rhifedd (Gweithdrefnol)?

Mae Rhifedd (Gweithdrefnol) yn canolbwyntio ar ffeithiau a gweithdrefnau rhifiadol – yr 'offer' rhifiadol sydd eu hangen er mwyn cymhwyso rhifedd i gyd-destunau amrywiol.

## Sut mae'r asesiad yn gweithio?

Dewisir y cwestiynau o 'gronfa' fawr a gynlluniwyd ar gyfer Blynyddoedd 2 i 9. Mae pob cwestiwn wedi'i ddewis yn seiliedig ar yr ateb a roddwyd i'r cwestiwn blaenorol. Os bydd dysgwyr yn cael cwestiwn yn iawn byddan nhw'n cael cwestiwn ychydig yn fwy anodd nesaf. Os na fyddan nhw'n gallu ateb cwestiwn, neu os fyddan nhw'n ateb yn anghywir neu'n sgipio cwestiwn, byddan nhw'n cael cwestiwn ychydig yn haws. Bydd pob dysgwr yn cael rhai cwestiynau'n gywir a rhai cwestiynau'n anghywir, gan mai dyma sut y cesglir gwybodaeth am yr hyn y gall pob dysgwr ei wneud ar yr adeg benodol honno. Mae hyn yn golygu y bydd pob dysgwr yn derbyn asesiad sy'n unigryw iddo ef/hi.

## Beth mae'r adborth yn ei ddweud?

Mae'r adborth hwn yn gipolwg ar sgiliau eich plentyn ar yr adeg y cynhaliwyd yr asesiad. Dim ond un ffynhonnell wybodaeth yw hi am ddealltwriaeth a gwybodaeth gyffredinol eich plentyn. Er mwyn cynllunio gwaith dysgu'r plentyn, bydd yr athro neu'r athrawes yn ystyried yr adborth hwn, ochr yn ochr â gwybodaeth arall am sgiliau rhifedd eich plentyn sy'n deillio o waith yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r adran gyntaf '**Y cwestiynau mwyaf anodd ges i'n gywir oedd ar y sgiliau hyn:**' yn rhestru'r meysydd lle rhoddodd eich plentyn atebion cywir ar gyfer y cwestiynau mwyaf heriol.

Mae'r ail adran '**Roedd rhai o'r cwestiynau ges i'n anghywir ar y sgiliau hyn:**' yn ymwneud â'r cwestiynau hawsaf a atebwyd yn anghywir.

Mae'r ddwy adran olaf '**Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sydd â sgiliau tebyg yn gallu … ac maen nhw'n debygol o symud ymlaen i wneud hyn:**' yn ymwneud â pherfformiad cyffredinol eich plentyn yn yr asesiad ac yn rhoi trosolwg o'r math o sgiliau y gall dysgwyr sydd â phatrwm tebyg o atebion eu cyflawni neu weithio tuag atyn nhw.

Gellir gweld cwestiynau enghreifftiol sy'n berthnasol i bob datganiad sgiliau a restrir yn yr adborth drwy glicio ar y botwm 'cwestiwn enghreifftiol PDF' pan fydd eich plentyn wedi mewngofnodi i'w gyfrif Hwb.

Bydd adroddiadau'n dangos cynnydd eich plentyn dros amser hefyd ar gael gan ysgol eich plentyn.

**Am ragor o wybodaeth am asesiadau personol ewch i**
**hwb.gov.wales/asesiadau-personol-ar-gyfer-rhieni-a-gofalwyr**

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52689
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg